

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Cynyddu data symudol ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol

Lluniwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau
GDPR a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards
Swyddog Diogelu Data
Sam Bishop/Maria Litchfield
Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN
data.protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000

Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth hon?

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer teuluoedd ledled Cymru sy'n gymwys ar gyfer y cynllun Cynyddu data symudol ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a ddisgrifir isod.

Ynglŷn a'r cynllun cynyddu data symudol ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol

Mae'r cynllun yn cael ei hwyluso gan Lywodraeth Cymru i helpu dysgwyr gyda'u haddysg yn ystod pandemig COVID-19 a chyfnodau clo neu ynysu cysylltiedig. Fel rhan o'r cynllun, mae rhai gweithredwyr rhwydwaith symudol wedi cytuno i gynyddu lwfansau data ar gyfer dyfeisiau symudol os oes gan ddeiliad y cyfrif gontract talu wrth fynd neu gontract talu'n fisol, ac mae'n gymwys ar gyfer y cynllun. Mae'r cynnig hwn ar gael am amser cyfyngedig, tan 31 Gorffennaf 2021 ar hyn o bryd.

I gael rhagor o fanylion am y cynllun, cysylltwch â Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Sut bydd ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn defnyddio gwybodaeth bersonol a sut y caiff ei rhannu

Bydd ysgolion yn defnyddio manylion cyswllt sydd ganddynt eisoes i gysylltu â theuluoedd y maent yn credu sy'n gymwys am y cynllun. Yna, bydd ysgolion yn cysylltu â chi i weld a yw'r cynllun yn addas i chi.

Bydd yr ysgol yn casglu a rhannu'r wybodaeth ganlynol yn ddiogel gyda Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a fydd wedyn yn rhannu'r wybodaeth â Llywodraeth Cymru drwy blatfform diogel Hwb:

- Disgrifyddion personol fel eich enw
- Rhifau Adnabod fel eich rhif ffôn symudol
- Data ychwanegol fel manylion ynghylch gweithredwr eich rhwydwaith ffôn symudol gan gynnwys os oes gennych gontract talu wrth ddefnyddio neu gontract misol.

Ni fydd yr ysgol yn rhannu gwybodaeth am unrhyw un arall ac eithrio deiliad y cyfrif.

Yna bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r wybodaeth uchod yn ddiogel gyda'r gweithredydd rhwydwaith symudol perthnasol er mwyn trefnu a gweinyddu'r cynllun ac er mwyn caniatáu i weithredwr y rhwydwaith symudol wirio eich bod yn gymwys ar gyfer y cynllun ac, os felly, cynyddu'r data dan sylw.

Bydd yr ysgol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r cynllun yn unig ac nid unrhyw reswm arall.

Os oes gennych gyfrif yn barod gyda gweithredwr(wyr) perthnasol y rhwydwaith symudol, bydd y wybodaeth hon ar gael ganddynt yn barod a byddant yn prosesu'r wybodaeth yn unol â'u polisiau a gweithdrefnau preifatrwydd. Os oes gennych unrhyw bryderon am sut mae gweithredwr(wyr) y rhwydwaith symudol yn trin eich gwybodaeth bersonol, dylech gysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael rheswm cyfreithlon dros ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Er mwyn cyflawni'r cynllun hwn, mae'r ysgol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn rhannu eich gwybodaeth bersonol fel rhan o'u buddiant dilys.

Am ba hyd fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir gan yr ysgol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun hwn yn cael ei chadw cyhyd ag y bo angen yn unig, ac ar hyn o bryd, dim hwyrach na 31 Awst 2021, fis ar ôl i'r cynllun ddod i ben. Os caiff y cynllun ei ymestyn, bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei dileu o fewn mis i'r cynllun ddod i ben.

Eich hawliau

Mae gennych hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch. Dyma nhw:

- yr hawl i wrthwynebu i benderfyniadau amdanoch gael eu gwneud drwy ddulliau cwbl awtomataidd;
- yr hawl i wybod am y data personol y mae'r ysgol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Llywodraeth Cymru yn ei chadw amdanoch, a sut i gael gafael arni;
- yr hawl i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data;
- yr hawl i wrthwynebu (mewn rhai amgylchiadau) neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- yr hawl i fynnu bod eich data yn cael ei 'ddileu' (dan rai amgylchiadau)
- yr hawl i gludadwyedd data (dan rai amgylchiadau) ac
- yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ein rheoleiddiwr annibynnol ar ddiogelu data (mae'r manylion cyswllt ar gael [yma](#)).

Cysylltiadau

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth sydd gan yr ysgol neu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a'i defnydd, neu os ydych am ddefnyddio eich hawliau dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) mewn perthynas â gwybodaeth o'r fath, cysylltwch â'r ysgol neu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (Manylion cyswllt isod).

Swyddog Diogelu Data
Canolfan Ddinesig,
Stryd y Castell,
Merthyr Tudful,
CF47 8AN

E-bost: Data.Protection@merthyr.gov.uk

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru'n a'i defnydd, neu os ydych am ddefnyddio'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth sydd gan weithredwr eich rhwydwaith symudol a'i defnydd, neu os ydych am ddefnyddio'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod.